PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD GWENER, 11 TACHWEDD 2016

Present: County Councillor McKerlich(Chairperson)
County Councillors Dilwar Ali, Howells, Hyde, Simmons a/ac Stubbs

## 22 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

## 23 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 24 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 6 Hydref yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 25 : PERFFORMIAD LLYFRGELLOEDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet), Sarah McGill (Cyfarwyddwr – Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid) ac Isabelle Bignall (Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Gymunedau a Gwasanaethau Cwsmeriaid) a Nicola Richard (Prif Swyddog Llyfrgelloedd) i'r cyfarfod.

Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2015 - 16

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd ei fod am dynnu sylw at y ffaith bod y nifer mawr o'r safonau llyfrgell wedi'u cyflawni ond nid yr un peth yw hi o ran WPLSQI9, lle bwriwyd y targed yn rhannol yn unig. Aethpwyd dros yr ystod setiau wedi'i greu gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei drafod ymhellach gyda hi.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2015-16

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr aelodau am y targed o ran gwario ar lyfrau plant a dywedon nhw y byddai'n ymddangos y cofnodwyd bod y targed wedi'i fwrw'n rhannol oherwydd eir dros y targed. Dywedodd swyddogion fod sylwadau'n cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru i newid y fframwaith.

- Holodd yr aelodau am y canlyniadau wedi'u cofnodi ynghylch fodloni ceisiadau (PI12) a gofynnon nhw am wybodaeth am pam ei bod wedi cymryd mor hir i ddarganfod y broblem. Dywedodd swyddogion fod newid sylweddol mewn

prosesau gyda'r symud i Newid Data Electronig.   Roedd cwsmeriaid yn araf i godi pryderon, ond fe'i datryswyd cyn gynted â'i darganfuwyd.

- Gofynnodd yr aelodau a yw swyddogion yn hyderus bod amrywiaeth o ddeunyddiau darllen addas ar gyfer y plant hŷn sy'n dod i'r ddinas heb lawer o Saesneg.  Dywedodd swyddogion y talwyd rhan o'r gorwariant eleni ar sicrhau bod 'Ardaloedd i Laslanciau' yn groesawgar ac yn cynnwys deunyddiau addas i'w galluogi i ymgysylltu heb orfod mynd i'r ardal i Blant.

- Holodd yr aelodau am ba mor aml y mae stoc yn cael ei adolygu i sicrhau mai'r stoc ddiweddaraf a pherthnasol sydd ar gael. Dywedodd swyddogion fod adolygiadau rheolaidd yn cael eu gwneud, ac yn flaenorol yn sicr canfuwyd bod rhai llyfrgelloedd gyda gormod o stoc. Ond, mae'r system newydd yn galluogi dadansoddi llyfrau wedi'u benthyca o ba lyfrgell.

<u>Her Ddarllen yr Haf 2016</u>

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a llongyfarchodd ran yr holl Gynghorwyr yn yr her hon a gwaith caled yr holl swyddogion oedd yn rhan ohoni.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar Her Ddarllen yr Haf 2016.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnod yr aelodau, gan ystyried y pwnc, a oeddent yn gallu rheoli'r galw am lyfrau Roald Dahl.  Dywedodd swyddogion, ynghyd â mwy o lyfrau yn cael eu prynu, y cymerodd staff ran trwy ddarllen straeon a chafodd argraffiadau a cherddi eu paratoi a'u dosbarthu.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu'r cyfarfod ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

26 : ADFYWIO DUMBALLS ROAD

**Ni chyhoeddir yr eitem hon yn yr adroddiad hwn gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Economi a Diwylliant ddydd Iau 8 Rhagfyr 2016 am 4.30 pm.